Cyfrifo sgoriau dysgwyr Profion Rhesymu Rhifiadol Blynyddoedd 7–9

Profion Rhifedd Cenedlaethol

2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diben y ddogfen hon

Diben y llyfryn hwn yw galluogi ysgolion i droi sgoriau crai o'r profion yn sgoriau safonedig ar sail oedran a mesuriadau cynnydd lle nad yw'r rhain wedi'u casglu trwy Gasglu Data ar Brofion Cenedlaethol Cymru. Bydd hyn yn berthnasol i ysgolion annibynnol. Bydd hefyd yn berthnasol lle bo dysgwr wedi sefyll prawf y tu allan i'r cyfnod profion neu brawf y tu allan i'r flwyddyn at ddibenion diagnostig.

Noder: dim ond mesuriadau cynnydd sy'n gallu cael eu cyfrifo ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll profion y tu allan i'r flwyddyn.

Cyfrifo sgoriau dysgwyr o brofion cenedlaethol

Sefydlwyd y sgoriau safonedig ar sail oedran a'r mesuriadau cynnydd gan ddefnyddio'r data a gyflwynwyd gan yr holl ysgolion yng Nghymru gyda dysgwyr a oedd wedi sefyll y profion rhesymu rhifiadol 'byw' ym mis Ebrill/Mai 2019.

Sgoriau safonedig ar sail oedran

Mae graddfeydd y sgoriau safonedig ar sail oedran yn ei gwneud yn bosibl i gymharu perfformiad dysgwr unigol yn y prawf yn 2019 â pherfformiad yr holl ddysgwyr eraill o'r un oedran, mewn blynyddoedd a misoedd cyflawn, sy'n sefyll yr un prawf.

Caiff sgoriau safonedig ar sail oedran eu haddasu ar gyfer oedran.

Cyfrifo oedran ar ddyddiad y prawf
Gallwch ddefnyddio'r offeryn 'cyfrif oedran' yma hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/cofnodi-a-dehongli-canlyniadau-r-profion-cenedlaethol/ i gyfrifo oedran ar ddyddiad y prawf trwy ddefnyddio dyddiad geni'r dysgwr a dyddiad cynnal y prawf. Bydd hyn yn rhoi oedran y dysgwr i chi mewn blynyddoedd a misoedd cyflawn.

Cyfrifo sgôr safonedig ar sail oedran
I gyfrifo'r sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer dysgwr unigol, bydd arnoch angen:

- ei sgôr grai (cyfanswm y marciau a ddyfarnwyd adeg marcio'r prawf)
- ei oedran ar ddyddiad y prawf mewn blynyddoedd a misoedd **cyflawn**.

Defnyddiwch Dablau 1–3 i ganfod y sgôr safonedig ar sail oedran gyfatebol. Gan ddefnyddio'r tabl priodol ar gyfer y prawf perthnasol, cewch sgôr grai y dysgwr ar ochr chwith y tabl. Yna, darllenwch ar draws y rhes i'r golofn sy'n nodi oedran y dysgwr. Gellir gweld y sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer y dysgwr hwn yn y gell lle y mae'r rhes a'r golofn yn croesi ei gilydd. Er enghraifft, byddai sgôr safonedig ar sail oedran o 113 gan ddysgwr a wnaeth sefyll prawf 7ER19/7CRh19, sy'n 12 oed a 3 mis (12.03) a chanddo sgôr grai o 13.

Dehongli sgôr safonedig ar sail oedran

Pan ddatblygir graddfeydd sgoriau safonedig ar sail oedran, mae disgwyl i'r sgôr grai gyfartalog ar gyfer pob dysgwr o oedran penodol sy'n sefyll y prawf fod yn gyfwerth â sgôr safonedig ar sail oedran o 100. Byddai disgwyl i tua 68 y cant o ddysgwyr fod â sgoriau safonedig ar sail oedran rhwng 85 a 115. **Gallai** sgôr safonedig ar sail oedran sy'n llai na 85 awgrymu bod y dysgwr yn wynebu peth anhawster â rhesymu rhifiadol fel y caiff ei fesur yn y prawf. **Gallai** sgôr safonedig ar sail oedran sy'n fwy na 115 awgrymu bod dysgwr yn perfformio'n well o' i gymharu â dysgwyr eraill yr un oedran a gall fod yn briodol rhoi gweithgareddau sy'n ymwneud â rhesymu rhifiadol sy'n fwy heriol iddo.

Caiff sgoriau safonedig ar sail oedran isel iawn eu dangos fel * yn y tabl ac mae modd eu dehongli fel 'llai na 70'. Caiff sgoriau uchel iawn eu dangos fel ** ac mae modd eu dehongli fel 'mwy na 140'. Diben y profion yw mesur ystod perfformiad rhesymu rhifiadol y byddai disgwyl i ddysgwyr yn y grwpiau blwyddyn penodol allu eu cyflawni. O safbwynt y dysgwyr y mae eu sgiliau rhesymu rhifiadol yn datblygu'n arafach na'r disgwyl ar gyfer eu hoedran neu'r dysgwyr sy'n perfformio'n dda iawn yn y profion, nid oes modd sicrhau bod eu sgoriau mor gywir â sgoriau'r dysgwyr sy'n sgorio o fewn yr ystod ddisgwyliedig. Os yw ysgol yn dymuno cyfrifo cyfartaleddau dosbarth, byddai defnyddio 69 neu 141 yn amcangyfrifon digon cywir ar gyfer y dysgwyr hyn.

Tabl 1: Tabl ar gyfer troi sgôr grai 7ER19/7CRh19 yn sgôr safonedig ar sail oedran

Blwyddyn 7 Rhesymu Rhifiadol 7ER19/7CRh19													
Sgôr grai	**Oedran mewn blynyddoedd a misoedd (cyflawn)**												
	11.08	**11.09**	**11.10**	**11.11**	**12.00**	**12.01**	**12.02**	**12.03**	**12.04**	**12.05**	**12.06**	**12.07**	**12.08**
0	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
1	77	77	76	76	76	76	76	76	76	76	76	76	76
2	82	82	81	81	81	80	80	80	80	79	79	79	78
3	86	85	85	85	84	84	84	83	83	82	82	82	81
4	89	89	88	88	88	87	87	86	86	85	85	85	84
5	93	92	92	91	91	90	90	89	89	88	88	87	87
6	96	95	95	94	93	93	92	92	92	91	91	90	90
7	99	98	98	97	96	96	95	95	94	94	93	93	92
8	102	101	101	100	99	99	98	98	97	96	96	95	95
9	105	104	104	103	103	102	101	100	100	99	99	98	97
10	108	108	107	106	105	105	104	104	103	102	102	101	100
11	111	110	110	109	109	108	107	107	106	105	105	104	103
12	114	113	113	112	111	111	110	110	109	108	108	107	106
13	117	116	116	115	114	114	113	113	112	111	111	110	110
14	120	119	119	118	117	117	116	116	115	115	114	113	113
15	123	122	122	121	121	120	120	119	118	118	117	117	116
16	126	126	125	125	124	124	123	122	122	121	121	120	120
17	127	127	127	126	126	126	126	126	126	126	125	125	124
18	128	128	128	128	128	128	128	127	127	127	127	127	127
19	131	131	131	130	130	130	130	130	130	130	129	129	129
20	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**

Tabl 2: Tabl ar gyfer troi sgôr grai 8ER19/8CRh19 yn sgôr safonedig ar sail oedran

Blwyddyn 8 Rhesymu Rhifiadol 8ER19/8CRh19													
Sgôr grai	**Oedran mewn blynyddoedd a misoedd (cyflawn)**												
	12.08	**12.09**	**12.10**	**12.11**	**13.00**	**13.01**	**13.02**	**13.03**	**13.04**	**13.05**	**13.06**	**13.07**	**13.08**
0	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
1	82	82	82	82	82	82	82	82	82	82	81	81	81
2	86	86	86	86	85	85	85	85	85	85	84	84	84
3	90	90	89	89	89	89	88	88	88	88	87	87	87
4	93	92	92	92	91	91	91	90	90	90	90	90	89
5	95	95	94	94	94	94	93	93	93	92	92	92	91
6	98	97	97	97	96	96	95	95	95	94	94	94	94
7	100	99	99	99	98	98	98	98	97	97	96	96	96
8	102	102	101	101	101	100	100	99	99	99	99	98	98
9	104	103	103	103	103	102	102	102	101	101	101	100	100
10	106	105	105	105	104	104	104	103	103	103	102	102	102
11	108	107	107	107	106	106	105	105	105	104	104	104	104
12	109	109	109	109	108	108	108	107	107	107	106	106	105
13	111	111	111	110	110	110	110	109	109	109	108	108	108
14	113	113	112	112	112	112	111	111	111	111	110	110	110
15	115	115	114	114	114	114	113	113	113	113	112	112	112
16	117	117	117	116	116	116	116	115	115	115	115	114	114
17	120	120	120	119	119	119	118	118	118	118	117	117	117
18	122	122	122	122	122	122	121	121	121	121	121	121	120
19	126	126	125	125	125	125	125	125	124	124	124	124	124
20	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**

Tabl 3: Tabl ar gyfer troi sgôr grai 9ER19/9CRh19 yn sgôr safonedig ar sail oedran

Blwyddyn 9 Rhesymu Rhifiadol 9ER19/9CRh19													
Sgôr grai	**Oedran mewn blynyddoedd a misoedd (cyflawn)**												
	13.08	**13.09**	**13.10**	**13.11**	**14.00**	**14.01**	**14.02**	**14.03**	**14.04**	**14.05**	**14.06**	**14.07**	**14.08**
0	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
1	79	78	78	78	77	77	76	76	76	76	76	76	76
2	87	86	86	86	86	85	85	85	84	84	84	83	83
3	91	91	91	90	90	89	89	88	88	88	88	87	87
4	94	94	94	93	93	93	93	92	92	92	91	91	91
5	97	97	97	96	96	96	95	95	95	94	94	94	93
6	100	100	99	99	99	98	98	98	97	97	97	96	96
7	103	102	102	101	101	101	100	100	100	99	99	99	98
8	105	104	104	104	103	103	103	102	102	101	101	101	100
9	107	107	106	106	106	105	105	105	104	104	104	103	103
10	109	109	108	108	108	107	107	107	106	106	106	105	105
11	111	110	110	110	110	109	109	109	108	108	108	107	107
12	112	112	112	112	111	111	111	111	110	110	110	109	109
13	114	114	114	113	113	113	113	112	112	112	112	111	111
14	117	116	116	116	115	115	115	114	114	114	113	113	113
15	119	118	118	118	118	117	117	117	116	116	116	115	115
16	121	121	121	120	120	120	120	119	119	119	118	118	118
17	124	124	123	123	123	123	122	122	122	122	121	121	121
18	127	126	126	126	126	126	126	126	126	125	125	125	125
19	129	129	129	129	129	129	129	128	128	128	128	128	128
20	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**	**

Mesuriadau cynnydd

Caiff graddfeydd mesuriadau cynnydd eu cyfrifo ar wahân ar gyfer pob grŵp blwyddyn a phob prawf o'r cwricwlwm cenedlaethol.

Nid yw'r mesuriadau cynnydd wedi'u haddasu ar gyfer oedran.

Cyfrifo mesur cynnydd
Er mwyn cyfrifo mesur cynnydd ar gyfer dysgwr unigol, bydd arnoch angen ei sgôr grai (cyfanswm y marciau a ddyfarnwyd pan gafodd y prawf ei farcio).

Defnyddiwch Dablau 4–6 i ganfod y mesur cynnydd cyfatebol.

Gan ddefnyddio'r tabl priodol ar gyfer y prawf perthnasol, cewch sgôr grai y dysgwr ar ochr chwith y tabl. Yna, darllenwch ar draws y rhes i'r golofn sy'n nodi'r mesur cynnydd.

Er enghraifft, byddai dysgwr sydd wedi sefyll prawf 7ER19/7CRh19 a chanddo sgôr grai o 10 yn cael mesur cynnydd o 1007.

Dehongli mesur cynnydd

Mae'r mesur cynnydd yn dangos pa mor dda y mae dysgwr unigol wedi'i wneud mewn prawf penodol o gymharu â'r **holl ddysgwyr eraill yn yr un grŵp blwyddyn o'r cwricwlwm cenedlaethol a oedd yn sefyll yr un prawf.** Dylai'r mesur cynnydd gael ei gyflwyno fel cyfres amser gan alluogi dilyn llwyddiant dysgwr yn y profion dros gyfnod.

Mae cymedr y mesur cynnydd ar gyfer pob grŵp blwyddyn wedi'i osod ar 1000, ac mae'r sgoriau'n amrywio o 950 i 1050. Mae gan ddysgwyr sy'n cyflawni rhwng 980 a 1020 (h.y. sgoriau o fewn un gwyriad safonol o'r cymedr) fesur cynnydd sy'n cyd-fynd â mesuriadau dysgwyr yn yr un grŵp blwyddyn (sy'n sefyll yr un prawf). Bydd gan tua 68 y cant o ddysgwyr sgôr yn yr ystod hon. Mae gan ddysgwyr sy'n sgorio y tu allan i'r ystod hon (h.y. yn is na 980 neu uwchlaw 1020) fesur cynnydd sydd un ai islaw neu uwchben y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn eu grŵp blwyddyn.

Dylid ystyried mesur cynnydd 2019 ochr yn ochr ag unrhyw fesur cynnydd blaenorol ar gyfer y dysgwr hwn. Byddai mesuriadau cynnydd sy'n eithaf tebyg o flwyddyn i flwyddyn yn awgrymu bod dysgwr yn gwneud cynnydd cyson yn ei grŵp blwyddyn. Mae mân amrywiadau i'r sgôr o flwyddyn i flwyddyn i'w disgwyl, ond os oes newidiadau mawr i'r mesur cynnydd rhwng un flwyddyn a'r nesaf, mae hyn yn awgrymu bod y dysgwr un ai wedi gwneud mwy neu lai o gynnydd na gweddill y dysgwyr a wnaeth sefyll y prawf. Cyfeiriwch at y canllawiau i ymarferwyr yma hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/cofnodi-a-dehongli-canlyniadau-r-profion-cenedlaethol/ i gael rhagor o wybodaeth am ddehongli'r mesuriadau cynnydd.

Profion y tu allan i'r flwyddyn
Pan fo dysgwr wedi sefyll prawf sy'n wahanol i brawf y cwricwlwm cenedlaethol ei grŵp blwyddyn, dylech ganfod ei fesuriadau cynnydd trwy ddefnyddio'r tabl priodol ar gyfer yprawf y mae wedi'i sefyll. Mae ei fesuriadau cynnydd yn cymharu'r dysgwr â'r holl ddysgwyr eraill sydd wedi sefyll yr un prawf.

Er enghraifft, mae'n bosibl canfod mesur cynnydd ar gyfer dysgwr sydd ym Mlwyddyn 8 o'r cwricwlwm cenedlaethol sydd wedi sefyll prawf 7ER19/7CRh19 a chanddo sgôr grai o 9, mae'n bosibl canfod mesur cynnydd Blwyddyn 7. Mae sgôr grai o 9 yn rhoi mesur cynnydd Blwyddyn 7 o 1003 sy'n dynodi bod y dysgwr wedi perfformio ar tua'r un lefel â'r dysgwr cyfartalog ym Mlwyddyn 7.

Wrth gymharu mesuriadau cynnydd dros amser, mae'n bwysig ystyried y grŵp cyfeirio (grŵp blwyddyn y cwricwlwm cenedlaethol y caiff y dysgwr ei gymharu ag ef), gan y gall hyn fod yn wahanol o un flwyddyn i'r nesaf.

Tabl 4: Tabl ar gyfer troi sgôr grai Prawf 7ER19/7CRh19 Blwyddyn 7 yn fesur cynnydd

Cyfanswm y sgôr	Mesur cynnydd
0	963
1	969
2	975
3	979
4	983
5	987
6	991
7	995
8	999
9	1003
10	1007
11	1011
12	1015
13	1019
14	1023
15	1028
16	1033
17	1038
18	1043
19	1050
20	1050

Tabl 5: Tabl ar gyfer troi sgôr grai Prawf 8ER19/8CRh19 Blwyddyn 8 yn fesur cynnydd

Cyfanswm y sgôr	Mesur cynnydd
0	972
1	977
2	981
3	985
4	988
5	991
6	994
7	997
8	1000
9	1002
10	1005
11	1008
12	1010
13	1013
14	1016
15	1019
16	1022
17	1026
18	1031
19	1036
20	1050

Tabl 6: Tabl ar gyfer troi sgôr grai Prawf 9ER19/9CRh19 Blwyddyn 9 yn fesur cynnydd

Cyfanswm y sgôr	Mesur cynnydd
0	962
1	974
2	982
3	987
4	991
5	995
6	998
7	1001
8	1004
9	1007
10	1009
11	1012
12	1015
13	1017
14	1020
15	1023
16	1027
17	1031
18	1037
19	1044
20	1050

© Hawlfraint y Goron 2019